

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A494  
(Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i  
Gyfnewidfa Parc Diwydiannol  
Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint)  
(Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019

The A494 Trunk Road (St David's  
Park Interchange to Deeside  
Industrial Park Interchange,  
Flintshire) (50 mph Speed Limit)  
Order 2019

*Gwnaed* 14 Awst 2019

*Made* 14 August 2019

*Yn dod i rym* 16 Awst 2019

*Coming into force* 16 August 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A494, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ar ôl rhoi rhybudd cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A494 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), after giving public notice of their intention to do so and after consultation with the Chief Officer of North Wales Police, make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019 a daw i rym ar 16 Awst 2019.

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (St David's Park Interchange to Deeside Industrial Park Interchange, Flintshire) (50 mph Speed Limit) Order 2019 and it comes into force on 16 August 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8(2), paragraph 29(2), and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

14 Awst 2019

*Richard Morgan*

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

### YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 90 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Parc Dewi Sant hyd at bwynt 20 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Y darnau o ffordd ymuno tua'r dwyrain a ffordd ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road.

### Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

14 August 2019

*Richard Morgan*

Head of Planning, Asset Management & Standards  
Welsh Government

### SCHEDULE

The length of the trunk road that extends from a point 90 metres west of the centre-point of St David's Park Interchange to a point 20 metres east of the centre-point of Deeside Industrial Park Interchange.

The lengths of the trunk road eastbound entry slip road and westbound exit slip road at St David's Park Interchange.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth drosbont Cyfnewidfa Plough Lane sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyfnewidfa honno am weddill y darn hwnnw.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth drosbont Cyfnewidfa Plough Lane sy'n ymestyn o bwynt 180 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyfnewidfa honno am weddill y darn hwnnw.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a ffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Parc Queensferry.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Parc Queensferry sy'n ymestyn o bwynt 93 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyfnewidfa honno am weddill y darn hwnnw.

Y darnau o ffordd ymadael tua'r dwyrain a ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Sealand Road.

Y darnau o ffordd ymadael tua'r dwyrain a ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

The length of the trunk road westbound entry slip road at Plough Lane Interchange over-bridge that extends from a point 170 metres east of the centre-point of that interchange for its remaining length.

The length of the trunk road westbound exit slip road at Plough Lane Interchange over-bridge that extends from a point 180 metres east of the centre-point of that interchange for its remaining length.

The lengths of the trunk road westbound exit and entry slip roads and eastbound entry slip road at Queensferry Park Interchange.

The length of the trunk road eastbound exit slip road at Queensferry Park Interchange that extends from a point 93 metres west of the centre-point of that interchange for its remaining length.

The lengths of the trunk road eastbound exit slip road and westbound entry slip road at Sealand Road Interchange.

The lengths of the trunk road eastbound exit slip road and westbound entry slip road at Deeside Industrial Park Interchange.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494  
(CYFNEWIDFA PARC DEWI SANT I  
GYFNEWIDFA PARC DIWYDIANNOL  
GLANNAU DYFRDWY, SIR Y FFLINT)  
(TERFYN CYFLYMDER 50 MYA) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a daw i rym ar 16 Awst 2019.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder parhaol o 50 mya ar y darnau o gefnffordd yr A494 rhwng Cyfnewidfa Parc Dewi Sant a Chyfnwidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Mae 2 Gorchymyn terfyn cyflymder 50 mya dros dro (O.S. 2018/659 (Cy. 125)) ac (O.S. 2018/749 (Cy. 146)) mewn grym ar hyn o bryd yn y lleoliad uchod a chaiff y rhain eu dirymu mewn gorchymyn dirymu ar wahân.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 15 Awst 2019 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Glannau Dyfrdwy, Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy, Chester Road E, Queensferry CH5 1SA neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1373968.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](http://www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate) ar [www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate](http://www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate) (detholer: Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig parhaol/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 90 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Parc Dewi Sant hyd at bwynt 20 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Y darnau o ffordd ymuno tua'r dwyrain a ffordd ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnwidfa Parc Dewi Sant.

**THE A494 TRUNK ROAD (ST DAVID'S PARK  
INTERCHANGE TO DEESIDE INDUSTRIAL  
PARK INTERCHANGE, FLINTSHIRE) (50 MPH  
SPEED LIMIT) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 16 August 2019.

The effect of the Order is to impose a permanent 50 mph speed limit on the lengths of the A494 trunk road between St David's Park Interchange and Deeside Industrial Park Interchange described in the Schedule to this Notice. There are 2 temporary 50 mph speed limit Orders (S.I. 2018/659 (W.125)) and (S.I. 2018/749 (W.146)) currently in place at the above location and these will be revoked in a separate revocation order.

During a period of 6 weeks from 15 August 2019 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Deeside Library, Leisure Centre House, Chester Road E, Queensferry CH5 1SA or may be obtained, free of charge, from the address below quoting reference number qA1373968.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate](http://www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate) (select: Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2019).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

**SCHEDULE**

The length of the trunk road that extends from a point 90 metres west of the centre-point of St David's Park Interchange to a point 20 metres east of the centre-point of Deeside Industrial Park Interchange.

The lengths of the trunk road eastbound entry slip road and westbound exit slip road at St David's Park Interchange.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth drosbont Cyfnewidfa Plough Lane sy'n ymestyn o bwynt 170 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyfnewidfa honno am weddill y darn hwnnw.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth drosbont Cyfnewidfa Plough Lane sy'n ymestyn o bwynt 180 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyfnewidfa honno am weddill y darn hwnnw.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a ffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Parc Queensferry.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Parc Queensferry sy'n ymestyn o bwynt 93 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyfnewidfa honno am weddill y darn hwnnw.

Y darnau o ffordd ymadael tua'r dwyrain a ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Sealand Road.

Y darnau o ffordd ymadael tua'r dwyrain a ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

The length of the trunk road westbound entry slip road at Plough Lane Interchange over-bridge that extends from a point 170 metres east of the centre-point of that interchange for its remaining length.

The length of the trunk road westbound exit slip road at Plough Lane Interchange over-bridge that extends from a point 180 metres east of the centre-point of that interchange for its remaining length.

The lengths of the trunk road westbound exit and entry slip roads and eastbound entry slip road at Queensferry Park Interchange.

The length of the trunk road eastbound exit slip road at Queensferry Park Interchange that extends from a point 93 metres west of the centre-point of that interchange for its remaining length.

The lengths of the trunk road eastbound exit slip road and westbound entry slip road at Sealand Road Interchange.

The lengths of the trunk road eastbound exit slip road and westbound entry slip road at Deeside Industrial Park Interchange.